Cyhoeddwyd gan TSO (y Llyfrfa) ac mae ar gael:

Ar-lein yn
www.tso.co.uk/bookshop

Post, Ffôn, Ffacs neu E-bost
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
Archebion dros y ffôn/Ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522|
Archebion drwy Linell Gymorth Lo-Call y Senedd 0845 7 023474
Archebion drwy'r ffacs 0870 600 5533
E-bost book.orders@tso.co.uk
Ffôn destun 0870 240 3701

Siopau TSO
123 Kingsway, London WC2B 6PQ
020 7242 6393 Ffacs 020 7242 6394
68-69 Bull Street, Birmingham B4 6AD
0121 236 9696 Ffacs 0121 236 9699
9-21 Princess Street, Manchester M60 8AS
0161 834 7201 Ffacs 0161 833 0634
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401
18-19 Heol Fawr, Caerdydd CF10 1PT
029 2039 5548 Ffacs 029 2038 4347
71 Lothian Road, Edinburgh EH3 9AZ
0870 606 5566 Ffacs 0870 606 5588

Asiantau Achrededig y Llyfrfa
(Gweler y Llyfr Ffôn)

a thrwy werthwyr llyfrau da

ISBN 0-10-157752-1
9 780101 577525

Aelodaeth y DU o'r arian sengl

Asesiad o'r pum prawf economaidd

Mehefin 2003

Aelodaeth y DU o'r arian sengl

Asesiad o'r pum prawf economaidd

Crynodeb gweithredol

Mehefin 2003

TRYSORLYS EM

TRYSORLYS EM

Aelodaeth y DU o'r arian sengl

Asesiad o'r pum prawf economaidd

Crynodeb gweithredol

Mehefin 2003

ailargraffwyd o Bapur Gorchymyn Cm 5776

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys Crynodeb Gweithredol o Bapur Gorchymyn Cm 5776 Mehefin 2003.

Mae'r pum prawf economaidd yn rhoi'r fframwaith ar gyfer dadansoddi penderfyniad Llywodraeth y DU ar aelodaeth o'r Undeb Economaidd ac Ariannol (EMU). Gwnaed a chomisiynwyd yr asesiad a'r astudiaethau o'r undeb economaidd ac ariannol gan Drysorlys EM.

Yr astudiaethau o'r undeb economaidd ac ariannol a gyhoeddwyd ar y cyd â'r asesiad yw:

- Fframwaith y pum prawf
- Dadansoddiad o gylchoedd busnes ac ysgytiadau Ewrop a'r DU
- Amcangyfrifon o gyfraddau cyfnewid cydbwysedd ar gyfer y bunt yn erbyn yr ewro
- Tai, treuliant a'r undeb economaidd ac ariannol
- Yr undeb economaidd ac ariannol a'r system drosglwyddo ariannol
- Modelu'r broses o drosglwyddo i'r undeb economaidd ac ariannol
- Modelu systemau ar gyfer ysgytiadau ac addasiadau i'r undeb economaidd ac ariannol
- Yr undeb economaidd ac ariannol a hyblygrwydd y farchnad lafur
- Y gyfradd gyfnewid ac addasu macro-economaidd
- Yr undeb economaidd ac ariannol a chost cyfalaf
- Yr undeb economaidd ac ariannol a'r sectorau busnes
- Lleoliad gweithgaredd ariannol a'r ewro
- Yr undeb economaidd ac ariannol a masnach
- Prisiau a'r undeb economaidd ac ariannol
- Yr Unol Daleithiau fel undeb ariannol
- Fframweithiau polisi yn y DU a'r undeb economaidd ac ariannol
- Cyflwyniadau ar undeb economaidd ac ariannol gan academyddion blaenllaw
- Sefydlogi cyllidebol a'r undeb economaidd ac ariannol - papur trafod

Mae'r asesiad o'r pum prawf economaidd ac astudiaethau o'r undeb economaidd ac ariannol ar gael ar wefan y Trysorlys yn:

www.hm-treasury.gov.uk

Am wybodaeth bellach am y Trysorlys a'i waith, cysylltwch â:

HM Treasury Public Enquiry Unit
1 Horse Guards Road
London
SW1A 2HQ

E-bost: public.enquiries@hm-treasury.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2003

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio'r Arfbais Frenhinol a'r logos adrannol) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Mae'n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl y ddogfen.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â hawlfraint y ddogfen hon i:

HMSO
Licensing Division
St Clements House
2-16 Colegate
Norwich
NR3 1BQ

Ffacs: 01603 723000

E-bost: licensing@cabinet-office.x.gsi.gov.uk

Argraffwyd gan y Llyfrfa Mehefin 2003

CRYNODEB GWEITHREDOL

POLISI'R LLYWODRAETH AR UNDEB ECONOMAIDD AC ARIANNOL A'R PUM PRAWF ECONOMAIDD

Mae polisi'r Llywodraeth ynglŷn â'r undeb economaidd ac ariannol…

Amlinellwyd polisi'r Llywodraeth ar undeb economaidd ac ariannol (EMU) yn wreiddiol gan Ganghellor y Trysorlys yn ei ddatganiad i'r Senedd ym mis Hydref 1997 a chaiff ei ddiweddaru yn natganiad a phenderfyniad y Llywodraeth ar aelodaeth o'r undeb economaidd ac ariannol, yn seiliedig ar yr asesiad hwn o'r pum prawf economaidd.[1]

Ystyr y byrfodd Saesneg EMU yw Undeb Economaidd ac Ariannol. Byddai aelodaeth o'r undeb economaidd ac ariannol yn golygu y byddai'r DU yn mabwysiadu'r ewro fel ei harian cyfred ac y byddai cyfraddau llog y DU wedi'u pennu gan Fanc Canolog Ewrop, ar sail amgylchiadau economaidd o fewn ardal gyfan yr ewro. Mae penderfyniad y Llywodraeth ynglŷn ag ymuno â'r undeb economaidd ac ariannol yn adlewyrchu'r hyn sydd orau, yn nhyb y Llywodraeth, o ran buddiannau economaidd hirdymor pobl Prydain a pherfformiad economi'r DU.

…yn seiliedig ar bedair sylfaen allweddol

Pan benderfynodd y Llywodraeth yn 1997 y dylai'r DU ymrwymo i'r egwyddor o ymuno â'r arian sengl, datganodd y Canghellor fod polisi'r Llywodraeth ar undeb economaidd ac ariannol yn seiliedig ar bedair sylfaen allweddol:

- yn gyntaf, byddai arian sengl llwyddiannus o fewn marchnad sengl Ewropeaidd o fudd mewn egwyddor i Ewrop a'r DU: o ran masnach, tryloywder costau a sefydlogrwydd arian cyfred;
- yn ail, mae'r mater cyfansoddiadol yn un o'r ffactorau a ystyrir ym mhenderfyniad y DU ond nid dyna'r ffactor pwysicaf, ar yr amod bod ymuno er budd y wlad, bod y ddadl yn glir ac yn ddiamwys a bod pobl y wlad yn cydsynio;
- yn drydydd, y sail i'r penderfyniad p'un a oes dadl economaidd glir a diamwys dros ymuno yw asesiad cynhwysfawr a thrylwyr y Trysorlys o'r pum prawf economaidd; ac
- yn bedwerydd, pryd bynnag y bydd y Llywodraeth yn gwneud y penderfyniad i ymuno, dylid cynnal refferendwm o bobl Prydain.

Y pum prawf economaidd

- **A yw cylchoedd busnes a strwythurau economaidd yn gydnaws er mwyn i ni ac eraill allu byw yn gyfforddus â chyfraddau llog yr ewro yn barhaol?**
- **Os cyfyd problemau a oes digon o hyblygrwydd i ymdrin â hwy?**
- **A fyddai ymuno â'r undeb economaidd ac ariannol yn creu amgylchiadau gwell i gwmnïau sy'n gwneud penderfyniadau hirdymor i fuddsoddi ym Mhrydain?**
- **Pa effaith y byddai ymuno â'r undeb economaidd ac ariannol yn ei chael ar allu cystadleuol diwydiant gwasanaethau ariannol y DU, yn enwedig marchnadoedd cyfanwerthu Dinas Llundain?**
- **Yn gryno, a fydd ymuno â'r undeb economaidd ac ariannol yn hybu mwy o dwf, sefydlogrwydd a chynnydd parhaol mewn swyddi?**

[1] Mae'r cyfan ar gael ar wefan Trysorlys EM yn www.hm-treasury.gov.uk.

EMU mewn cyd-destun byd-eang

Mae datblygiad undeb economaidd ac ariannol a pholisi'r Llywodraeth ynglŷn ag ef yn adlewyrchu tueddiadau byd-eang sy'n llunio polisïau economaidd ar draws y byd. Yn sgîl globaleiddio, mae'r byd yn symud tuag at fwy o integreiddio drwy gyfrwng mwy o fasnach a buddsoddiad.

Daw mwy o ansicrwydd hefyd yn sgîl yr integreiddio cryfach sy'n deillio o globaleiddio. Erbyn hyn caiff newidiadau mewn amgylchiadau economaidd (ysgytiadau) mewn un sector, rhanbarth neu wlad eu trosglwyddo'n gyflymach ar draws system economaidd y byd. O ganlyniad mae mwy o ofynion ar economïau'r byd a'r bobl a'r technolegau sy'n sail i'w llwyddiant. Er mwyn llwyddo i sicrhau twf mawr, cyflogaeth a chynhwysiant cymdeithasol, mae'n rhaid i bawb sy'n chwarae rhan yn yr economi fod yn barod i ymaddasu i ddatblygiadau tymor byr a newid tymor hwy.

Ni fyddai byd a nodweddir gan newid economaidd parhaus ac ansicrwydd cynyddol yn fuddiol i dwf, buddsoddi a swyddi heb ddiogelwch ychwanegol sefydlogrwydd. Mae sefydlogrwydd yn angori disgwyliadau ac yn caniatáu i unigolion a chwmnïau gynllunio ymlaen llaw yn hyderus. Ar draws system economaidd y byd, mae ymrwymiad cynyddol i bolisïau sydd â'r nod o sicrhau sefydlogrwydd, ynghyd â thystiolaeth a chydnabyddiaeth gynyddol mai'r ffordd orau o gyflawni hyn yw drwy fframweithiau sy'n seiliedig ar egwyddorion ac amcanion eglur.

Y DU yn Ewrop

Mae hynny'n arbennig o wir ar draws Ewrop, lle rhennir ymrwymiad fwyfwy i sefydlogrwydd economaidd ynghyd â phroses ddiwygio economaidd eang ei chwmpas gyda'r nod o sicrhau cyflogaeth lawn, safonau byw uchel a chydlyniant cymdeithasol. Gan fod mwy na hanner masnach y DU gyda'r UE a bod cynnyrch, llafur a marchnadoedd cyfalaf yn integreiddio mwy â'i gilydd, y ffordd orau o anelu at fuddiant economaidd y DU yw drwy gydweithredu mwy â gwledydd eraill Ewrop, fel rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i UE cryf ac undeb economaidd ac ariannol llwyddiannus. Fel y dywedodd y Prif Weinidog ym mis Tachwedd 2002:

"Dylem fod yn fwy hyderus gan ein bod yn wlad Ewropeaidd flaenllaw, wedi bod erioed a byddwn bob amser yn y dyfodol." [2]

Amcanion…

Caiff y tueddiadau byd-eang ac Ewropeaidd hyn eu hadlewyrchu yn amcan economaidd canolog y Llywodraeth sef y dylai'r DU ddatblygu economi gryfach, fwy mentrus a chymdeithas decach, gan estyn cyfle economaidd i'r rhai â'r angen mwyaf a'u cynorthwyo er mwyn sicrhau bod pawb yn rhannu ffyniant cynyddol y wlad.

…a strategaeth y Llywodraeth

Sefydlogrwydd, cynhyrchiant a chyfle cyflogaeth yw sylfeini strategaeth economaidd y Llywodraeth. Ers 1997, mae'r Llywodraeth wedi gwneud penderfyniadau anodd ac wedi cyflwyno diwygiadau eang eu cwmpas er mwyn rhoi llwyfan o sefydlogrwydd economaidd a hyrwyddo gwaith a menter, mynd i'r afael â thlodi a chael buddsoddiad parhaus er mwyn moderneiddio gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n rhaid i benderfyniad y Llywodraeth ar aelodaeth y DU o'r arian sengl gyfrannu at yr amcanion hyn a'r strategaeth hon.

Goblygiadau EMU

Byddai ymuno â'r undeb economaidd ac ariannol yn golygu newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae polisi macro-economaidd y DU yn gweithredu. Byddai'r gyfradd gyfnewid rhwng y bunt a'r ewro yn cael ei phennu'n derfynol a byddai'r ewro yn dod yn arian cyfred cenedlaethol y DU. Byddai'r DU yn ddarostyngedig i un gyfradd llog a bennir gan Fanc Canolog Ewrop ar gyfer ardal gyfan yr ewro. A byddai"n ofynnol i'r DU gydymffurfio â thelerau Cytundeb Sefydlogrwydd a Thwf yr UE (SGP) yn llawn.

[2] 'A clear course for Europe', araith gan y Prif Weinidog, 28 Tachwedd 2002.

Ymagwedd hirdymor

Dengys datblygiad economi'r DU yn sgîl cyflwyno fframweithiau polisi ariannol a chyllidol y Llywodraeth ers 1997 sut y bu sefydlogrwydd yn sylfaen i welliant hirdymor ym mherfformiad economaidd y DU. Mae hyn yn dangos pam mae penderfyniad y Llywodraeth ar ymuno â'r undeb economaidd ac ariannol yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n iawn i economi'r DU yn y tymor hir. Mae angen ymagwedd hirdymor oherwydd natur unigryw economi'r DU – economi fawr yn yr UE ac iddi agwedd fyd-eang – a natur gyfnewidiol hanes economaidd y DU.

Mae'r pum prawf economaidd…

Mae pum prawf economaidd y Llywodraeth ar gyfer aelodaeth y DU o'r undeb economaidd ac ariannol yn cwmpasu cydgyfeirio, hyblygrwydd, buddsoddiad, gwasanaethau ariannol, a thwf, sefydlogrwydd a chyflogaeth.

…yn pennu a ellir cyflwyno dadl glir a diamwys

Mae'r pum prawf economaidd yn diffinio a oes modd cyflwyno dadl glir a diamwys dros aelodaeth y DU o'r undeb economaidd ac ariannol. Mae hyn yn gosod safon ymestynnol, gan adlewyrchu pwysigrwydd hirdymor y penderfyniad. Mae'r Llywodraeth o'r farn y byddai'n methu ag ystyried natur benodol a hanes polisi economi'r DU, natur ddiwrthdro y penderfyniad a'r materion cyfansoddiadol sy'n codi pe bai'n anelu'n is.

Drwy'r asesiad o'r profion cydgyfeirio a hyblygrwydd gyda'i gilydd y penderfynir p'un a gyflawnwyd cydgyfeirio cynaliadwy a hirbarhaol rhwng y DU ac ardal yr ewro. Mae cydgyfeirio cynaliadwy a hirbarhaol yn rhagamod allweddol i wireddu'r buddiannau posibl a gynigir drwy ymuno â'r undeb economaidd ac ariannol.

Yr ymagwedd gynhwysfawr a thrylwyr…

Er mwyn sicrhau y gall yr asesiad fod yn sail i benderfyniad mor bwysig â hwn, dywedodd y Canghellor: *"yr asesiad fydd y gwaith mwyaf cadarn, trylwyr a chynhwysfawr y mae'r Trysorlys wedi'i wneud erioed."*.[3] I'r perwyl hwn, gwnaed defnydd helaeth o'r technegau a'r dulliau modelu dadansoddol diweddaraf a'r deunydd economaidd cyhoeddedig diweddaraf, sydd wedi dylanwadu ar y Trysorlys wrth iddo ddadansoddi'r materion allweddol. Un datblygiad o bwys ers asesiad 1997 yw ei bod yn bosibl bellach i ystyried a dadansoddi profiadau'r gwledydd sydd wedi mabwysiadu'r ewro ers 1999, gan wella'r sail o dystiolaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae'r undeb economaidd ac ariannol yn gweithredu.

…asesiad a 18 o astudiaethau

Y Trysorlys sy'n gyfrifol am yr asesiad o'r pum prawf economaidd. Cyhoeddir 18 o astudiaethau o'r undeb economaidd ac ariannol ochr yn ochr â'r asesiad ac maent yn ei lywio. Mae arbenigwyr o'r tu allan i'r Trysorlys wedi paratoi pedair o'r astudiaethau, gan ddatblygu gwaith newydd mewn meysydd allweddol. Mae arbenigwyr allanol eraill wedi cynorthwyo'r Trysorlys, fel ymgynghorwyr, gyda'r astudiaethau ac wedi rhoi dealltwriaeth newydd o waith academaidd blaenorol.

Costau a buddiannau

Mae'n bwysig bod y penderfyniadau ynglŷn ag ymuno â'r undeb economaidd ac ariannol yn canolbwyntio ar gostau a buddiannau posibl ymuno ar hyn o bryd. Mae'n rhaid ystyried buddiannau posibl ymuno ochr yn ochr ag asesu a oes cydgyfeirio cynaliadwy a hirbarhaol er mwyn galluogi'r DU i fanteisio ar y buddiannau posibl.

Daeth asesiad 1997 y Trysorlys i'r casgliad nad oedd y DU wedi cydgyfeirio ag ardal arfaethedig yr ewro, nad oedd digon o hyblygrwydd a bod y ffaith nad oedd cydgyfeirio cynaliadwy a hirbarhaol yn golygu mai cymaint oedd y risgiau a oedd yn gysylltiedig ag ymuno o'r fath fel na fyddai'r DU mewn sefyllfa i fanteisio ar fuddiannau posibl undeb economaidd ac ariannol o ran mwy o fuddsoddi, twf a swyddi am beth amser.

[3] Araith Mansion House gan Ganghellor y Trysorlys, 26 Mehefin 2002.

Ailwerthuso penderfyniad 1997

Er mwyn tynnu sylw at y materion allweddol sy'n gonglfaen dadansoddol i'r asesiad, cynhaliwyd ymarfer arddulliedig i ailwerthuso casgliadau asesiad 1997 a'r penderfyniad ar undeb economaidd ac ariannol drwy ystyried 'beth os' oedd economi'r DU wedi ymuno â'r undeb economaidd ac ariannol yn 1999, ar yr un pryd â'r 11 o aelodau'r 'don gyntaf'. Yn ôl yr ymarfer pe bai'r DU wedi ymuno â'r undeb economaidd ac ariannol yn 1999, gallai economi'r DU o bosibl fod wedi bod yn fwy ansefydlog yn economaidd nag y bu mewn gwirionedd. Fodd bynnag, ers 1997 gwnaed cynnydd sylweddol i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn natganiad 1997.

ASESIAD O'R PUM PRAWF ECONOMAIDD

Mae'r asesiad yn rhoi dadansoddiad manwl o bob un o bum prawf economaidd y Llywodraeth ar gyfer ymuno â'r undeb economaidd ac ariannol.

Pan benderfynodd y Llywodraeth yn 1997 y dylai'r DU ymrwymo i'r egwyddor o ymuno â'r arian sengl, nododd y Canghellor mai'r manteision yw costau trafodion is, llai o amrywio o ran y gyfradd gyfnewid, mwy o gymhellion i fasnach a buddsoddi trawsffiniol, a chyfraddau llog is o bosibl yn yr hirdymor. Un rhan o'r asesiad yw'r casgliad bod masnach, ar ôl cyflwyno'r ewro, wedi cynyddu o fewn ardal yr ewro ac y gallai masnach y DU gydag ardal yr ewro ac incwm gwladol y DU, dros amser, gynyddu'n sylweddol.

Dengys yr asesiad fod masnach o fewn ardal yr ewro wedi cynyddu'n fawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i'r undeb economaidd ac ariannol, cymaint â 3 i 20 y cant o bosibl; y gallai fod cynnydd sylweddol ym masnach y DU gydag ardal yr ewro hyd at 50 y cant dros 30 mlynedd; ac y gallai incwm gwladol y DU gynyddu rhwng 5 a 9 y cant dros gyfnod o 30 mlynedd. Byddai cynnydd o 9 y cant mewn incwm gwladol yn golygu hwb i'r allbwn posibl o tua ¼ pwynt canran y flwyddyn, gan barhau dros gyfnod o 30 mlynedd.

Mae'r asesiad yn mynd i'r afael â'r angen am gydgyfeirio cynaliadwy a hirbarhaol fel rhagamod ar gyfer ymuno â'r undeb economaidd ac ariannol yn llwyddiannus ar hyn o bryd a'r risgiau a'r costau sy'n gysylltiedig â gohirio ymuno. Drwy'r asesiad o'r profion cydgyfeirio a hyblygrwydd gyda'i gilydd y penderfynir p'un a oes cydgyfeirio cynaliadwy a hirbarhaol. Dyna'r sail ar gyfer asesu a ellid cynnal sefydlogrwydd economaidd y DU – un o amcanion canolog polisi'r Llywodraeth, gan roi llwyfan ar gyfer cyflawni lefelau uchel o dwf a chyflogaeth – pe bai'r DU yn ymuno â'r undeb economaidd ac ariannol.

Mae'r casgliadau ar bob un o'r profion fel a ganlyn:

Cydgyfeirio

A yw cylchoedd busnes a strwythurau economaidd yn gydnaws er mwyn i ni ac eraill allu byw yn gyfforddus â chyfraddau llog yr ewro yn barhaol?

Bu cryn gynnydd o ran cydgyfeirio ers 1997, sy'n drobwynt yn hanes y DU o ddargyfeirio yn y gorffennol, ac sy'n adlewyrchu'r ffaith bod economi'r DU yn fwy sefydlog ynghyd â'r tueddiadau byd-eang i integreiddio. Yn wir, erbyn hyn gwelir mwy o gydgyfeirio cylchol yn y DU nag a welwyd ymhlith rhai o aelodau'r undeb economaidd ac ariannol yn y cyfnod cyn dechrau'r undeb economaidd ac ariannol yn 1999 ac erys yn fwy cydgyfeiriol na nifer o'r gwledydd yn yr undeb economaidd ac ariannol heddiw. Mae'r DU yn bodloni meini prawf cydgyfeirio Cytundeb y CE ar gyfer chwyddiant, cyfraddau llog hirdymor a diffygion a dyled y llywodraeth. Ond erys gwahaniaethau strwythurol rhwng y DU ac ardal yr ewro, gyda rhai ohonynt yn sylweddol, megis y farchnad dai. Oherwydd y risgiau sy'n gysylltiedig â'r ffactorau

hyn, a'r ffaith y byddai unrhyw newidiadau deinamig yn cymryd amser i ddwyn ffrwyth, ni allwn fod yn hyderus eto fod cylchoedd busnes y DU yn ddigon cydnaws â chylchoedd busnes ardal yr ewro er mwyn galluogi'r DU i fyw yn gyfforddus â chyfraddau llog ardal yr ewro yn barhaol. Yn gyffredinol, ar hyn o bryd, er bod y DU yn llawer mwy cydgyfeiriol ag ardal yr ewro, ni fodlonir y prawf ar gydgyfeirio. Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i adeiladu ar sefydlogrwydd ac mae wedi cyhoeddi agenda bolisi flaengar ac eang ei chwmpas er mwyn cyflawni lefelau uchel o allbwn a chyflogaeth. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod yr economi yn cydgyfeirio mwy ag ardal yr ewro yn y dyfodol.

Hyblygrwydd

Os cyfyd problemau a oes digon o hyblygrwydd i ymdrin â hwy?

Mae hyblygrwydd marchnad lafur y DU wedi gwella'n sylweddol ers 1997. Bu gostyngiadau sylweddol mewn diweithdra ochr yn ochr â thwf mawr mewn cyflogaeth sy'n golygu bod gan y DU un o'r lefelau isaf o ddiweithdra o fewn gwledydd y Sefydliad er Cydweithredu a Datblygu Economaidd (OECD), yn is hyd yn oed nag UDA. Er bod cryn gynnydd wedi'i wneud i ddiwygio marchnadoedd llafur, cynnyrch a chyfalaf yn y DU ac ardal yr ewro, gellir gwneud mwy i sicrhau bod economi y DU yn wydn i wynebu'r risgiau a nodwyd yn y prawf cydgyfeirio a heriau bod yn aelod o'r undeb economaidd ac ariannol. Mae newidiadau o ran chwyddiant yn debygol iawn o gynyddu o fewn yr undeb economaidd ac ariannol. Byddai mwy o hyblygrwydd yn y DU a thrwy ardal yr ewro i gyd yn lleihau ansefydlogrwydd o ran allbwn a chyflogaeth, gan helpu i sicrhau bod cydgyfeirio yn barhaol a bod modd manteisio i'r eithaf ar fuddiannau posibl yr undeb economaidd ac ariannol. Mae hyn yn tanlinellu pa mor bwysig yw parhau i wneud cynnydd ar ystod o bolisïau diwygio economaidd er mwyn cael mwy o hyblygrwydd a gwydnwch i ysgytiadau, yn enwedig yn y marchnadoedd llafur. Po leiaf fo'r cynnydd o ran hyblygrwydd yn yr UE, mwyaf gwerthfawr fydd lefel uchel o hyblygrwydd yn economi'r DU. Yn gyffredinol, ar hyn o bryd, ni allwn fod yn hyderus bod hyblygrwydd y DU, er ei fod yn well, yn ddigonol. Gan ystyried hyn, ar hyn o bryd, ni phrofwyd bod cydgyfeirio cynaliadwy a hirbarhaol. Ond bydd yr hyblygrwydd cynyddol drwy'r mesurau a nodwyd gennym yn helpu i roi mwy o sicrwydd y gall yr economi ateb y gofynion ychwanegol a ddaw yn sgîl aelodaeth o'r undeb economaidd ac ariannol ac yn cyfrannu at gyflawni cydgyfeirio cynaliadwy a hirbarhaol.

Buddsoddi

A fyddai ymuno â'r undeb economaidd ac ariannol yn creu amgylchiadau gwell i gwmnïau sy'n gwneud penderfyniadau hirdymor i fuddsoddi ym Mhrydain?

Ataliwyd cynhyrchiant yn y DU oherwydd problemau o ran tanfuddsoddi hirdymor a etifeddwyd. Gallai ymuno â'r undeb economaidd ac ariannol leihau cost cyfalaf i gwmnïau yn y DU pe bai cyfraddau llog hirdymor yn lleihau ymhellach o fewn ardal yr ewro a phe bai aelodaeth o farchnad ariannol fwy yn lleihau cost cyllid. Gallai'r costau hyn ostwng i fusnesau bach a chanolig eu maint yn arbennig os bydd ymuno â'r undeb economaidd ac ariannol yn lleihau'r rhwystrau sy'n atal busnesau bach a chanolig eu maint rhag defnyddio marchnadoedd ariannol yn ardal yr ewro ac yn lleihau cost benthyciadau banc. Dros amser, mae'r undeb economaidd ac ariannol yn debygol o arwain at gynnydd mewn buddsoddi trawsffiniol a buddsoddi tramor uniongyrchol yn ardal yr ewro. Bu gostyngiad yng nghyfran y DU o gyfanswm buddsoddi tramor uniongyrchol yr UE sy'n cyd-daro â dechrau'r undeb economaidd ac ariannol, a chynnydd cyfatebol yng nghyfran ardal yr ewro. Ond yng nghyddestun llawer o ddylanwadau eraill ar fuddsoddi tramor uniongyrchol, mae'n anodd dweud yn hyderus bod yr undeb economaidd ac ariannol wedi arwain at gynnydd mewn buddsoddi

tramor uniongyrchol o fewn ardal yr ewro. Fodd bynnag, gellid dweud yn hyderus y byddai undeb economaidd ac ariannol sy'n gweithredu'n llwyddiannus, gyda'r DU yn aelod ohono ar sail briodol, yn arwain at gynnydd mewn buddsoddi tramor uniongyrchol dros y tymor hwy. Y perygl yw po hwyaf y gohirir y penderfyniad i ymuno â'r ewro, mwyaf yn y byd y gohirir y manteision posibl o ran mwy o fewnfuddsoddi. Os cyflawnir cydgyfeirio cynaliadwy a hirbarhaol, yna gallwn fod yn hyderus y byddai maint ac ansawdd y buddsoddiad yn cynyddu gan sicrhau bod y prawf buddsoddi yn cael ei fodloni.

Gwasanaethau ariannol

Pa effaith y byddai ymuno â'r undeb economaidd ac ariannol yn ei chael ar allu cystadleuol diwydiant gwasanaethau ariannol y DU, yn enwedig marchnadoedd cyfanwerthu Dinas Llundain?

Dros y pedair blynedd ers dechrau'r undeb economaidd ac ariannol, mae'r DU wedi denu cryn dipyn o fusnes ym maes gwasanaethau ariannol cyfanwerthu. Dylai cryfder Dinas Llundain o ran gweithgaredd gwasanaethau ariannol cyfanwerthu rhyngwladol olygu y dylai barhau i wneud hynny, p'un ai o fewn ynteu tu allan i'r undeb economaidd ac ariannol. Dylai ymuno â'r undeb economaidd ac ariannol wella gallu cystadleuol sector gwasanaethau ariannol cyfanwerthu'r DU, sydd eisoes yn gryf, drwy gynnig rhai buddiannau ychwanegol. Unwaith eto, er y dylai sector gwasanaethau ariannol manwerthu'r DU barhau i fod yn gystadleuol o fewn neu y tu allan i ardal yr ewro, byddai ymuno yn rhoi mwy o gyfle i gystadlu ac elwa ar effeithiau integreiddio mwy â'r UE a fyddai'n deillio o'r arian sengl ac ymdrechion eraill i gwblhau'r Farchnad Sengl, yn enwedig y Cynllun Gweithredu Gwasanaethau Ariannol (FSAP) – buddiannau a gaiff eu gohirio tra bydd y DU yn dal y tu allan i'r undeb economaidd ac ariannol. Yn gyffredinol, bodlonir y prawf gwasanaethau ariannol.

Twf, sefydlogrwydd a chyflogaeth

Yn gryno, a fydd ymuno â'r undeb economaidd ac ariannol yn hybu mwy o dwf, sefydlogrwydd a chynnydd parhaol mewn swyddi?

Gallai aelodaeth o'r undeb economaidd ac ariannol gynyddu allbwn y DU yn sylweddol gan arwain at gynnydd parhaol mewn swyddi yn y tymor hir. Fel y nodwyd uchod, dengys yr asesiad fod masnach o fewn ardal yr ewro wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i'r undeb economaidd ac ariannol, yn gymaint â 3 i 20 y cant o bosibl; y gallai fod cynnydd sylweddol ym masnach y DU gydag ardal yr ewro o hyd at 50 y cant dros 30 mlynedd; ac y gallai incwm gwladol y DU gynyddu rhwng 5 a 9 y cant dros gyfnod o 30 mlynedd. Byddai cynnydd o 9 y cant mewn incwm gwladol yn golygu cynnydd mewn allbwn posibl o tua ¼ pwynt canran y flwyddyn, gan barhau dros gyfnod o 30 mlynedd. Er gwaethaf y cynnydd a wnaed ers 1997, mae'r ffaith nad oes cydgyfeirio cynaliadwy a hirbarhaol yn golygu y byddai'n anos i'r DU gynnal sefydlogrwydd macro-economaidd o fewn yr undeb economaidd ac ariannol na'r tu allan iddo, pe bai'r DU yn penderfynu ymuno ar hyn o bryd. Oherwydd yr ansicrwydd posibl a grëir gan amcan sefydlogrwydd pris Banc Canolog Ewrop a'r cyfyngiadau posibl ar y defnydd o bolisi cyllidol ar gyfer sefydlogi o dan ddehongliad presennol y Cytundeb Sefydlogrwydd a Thwf (SGP) mae'n fwy tebygol y byddai allbwn a chyflogaeth yn llai sefydlog o fewn yr undeb economaidd ac ariannol. Mae'r Llywodraeth yn cefnogi'r ffordd y mae fframwaith macro-economaidd yr UE yn datblygu. Bydd sicrhau bod economi Ewrop yn fwy hyblyg a deinamig, gan adeiladu ar gyflawniadau'r rhaglen diwygio economaidd y cytunwyd arni yn Lisbon, hefyd yn bwysig er mwyn manteisio ar fuddiannau llawn yr undeb economaidd ac ariannol. Mae'n hanfodol ymuno â'r undeb economaidd ac ariannol ar sail gynaliadwy a hirbarhaol er mwyn i'r DU allu elwa ar y cynnydd sylweddol

mewn masnach trawsffiniol, buddsoddiad, cystadleuaeth a chynhyrchiant a allai ddod yn sgîl yr undeb economaidd ac ariannol. Byddai prisiau is yn arwain at gost byw is, buddiant posibl allweddol i aelwydydd os ymunir â'r undeb economaidd ac ariannol, ond buddiant y gellid manteisio arno dim ond os ymunir ar sail cydgyfeirio cynaliadwy a hirbarhaol. Mae aelwydydd tlawd yn tueddu i wario cyfran uwch o'u hincwm ar nwyddau a gwasanaethau, felly gallai aelwydydd o'r fath elwa mwy ar brisiau is o'u cymharu ag aelwydydd cyfoethog. Yn gyffredinol, gallwn fod yn hyderus y byddai modd bodloni prawf twf, sefydlogrwydd a chyflogaeth ar ôl cyflawni proses gydgyfeirio gynaliadwy a hirbarhaol.

Yn gyffredinol, asesiad y Trysorlys yw bod y DU ers 1997 wedi gwneud cynnydd gwirioneddol o ran bodloni'r pum prawf economaidd. Ond, at ei gilydd, er bod buddiannau posibl sy'n deillio o fwy o fuddsoddiad, masnach, cynnydd mewn gwasanaethau ariannol, twf a swyddi yn amlwg, ni allwn ar hyn o bryd gasglu bod cydgyfeirio cynaliadwy a hirbarhaol neu ddigon o hyblygrwydd i ymdopi ag unrhyw anawsterau posibl o fewn ardal yr ewro. Felly, er gwaethaf y risgiau a'r costau sy'n gysylltiedig â gohirio buddiannau ymuno, ni roddwyd dadl glir a diamwys dros aelodaeth y DU o'r undeb economaidd ac ariannol ar hyn o bryd ac ni fyddai penderfyniad i ymuno yn awr er budd economaidd y wlad.

GOFYNION POLISI

Felly, oherwydd ei bod yn iawn i economi Prydain sut bynnag ac oherwydd y bydd yn cyfrannu at gyflawni'r cydgyfeirio cynaliadwy a hirbarhaol sydd ei angen arnom er mwyn sicrhau bod modd i Brydain ffynnu o fewn ardal yr ewro, mae'r Llywodraeth yn dechrau ar raglen eang o ddiwygiadau economaidd.

Mae elfennau allweddol yr agenda bolisi hon fel a ganlyn:

Cynnal sefydlogrwydd: targed chwyddiant y Llywodraeth

- O ran polisi macro-economaidd, mae cyhoeddiad y Llywodraeth o'i bwriad i roi targed chwyddiant cymesur i Fanc Lloegr yn yr Adroddiad Rhag-gyllidebol nesaf fel y'i mesurir gan Fynegrif Prisiau Defnyddwyr wedi'i Gysoni yn sicrhau gwell ansawdd targed chwyddiant y DU a hefyd yn helpu i sicrhau bod disgwyliadau o ran chwyddiant yn y DU yn aros yn gyson â disgwyliadau o fewn ardal yr ewro.

Gwell sefydlogrwydd a hyblygrwydd: tai

- Er mwyn cyflawni llwyfan mwy sefydlog yn y dyfodol a mwy o gydgyfeirio, mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i weithredu rhaglen gynhwysfawr i wella'r ffordd y mae'r farchnad dai yn gweithio. Gan adeiladu ar y diwygiadau i wneud newid sylweddol ym maes polisi cynllunio, mae'r Llywodraeth yn gwneud newidiadau sylweddol pellach i'r system gynllunio, y cyflenwad o dai a chyllid tai er mwyn mynd i'r afael â methiannau'r farchnad, sicrhau bod cyflenwad yn fwy ymatebol i'r galw a bod prisiau cenedlaethol a rhanbarthol yn llai cyfnewidiol. Mae'r mesurau hyn o fudd ynddynt eu hunain er mwyn gwella sefydlogrwydd a hyblygrwydd marchnad dai y DU a'r economi ehangach, ond bydd hefyd yn sicrhau bod y farchnad dai yn fwy cydnaws ag ardal yr ewro, gan hyrwyddo mwy o gydgyfeirio dros amser.

- Mae hyn yn golygu rhoi diwygiadau blaenorol i'r cyflenwad o dai ar waith yn gyflym ac mewn ffordd bendant a gwneud rhagor i fynd i'r afael â chyflenwad a galw yn y farchnad dai a sefydlogrwydd macro-economaidd yn fwy cyffredinol:

- o ran y cyflenwad o dai, mae'r Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i Strategaethau Gofodol Rhanbarthol newydd ystyried natur gyfnewidiol y farchnad dai a hyrwyddo sefydlogrwydd macro-economaidd fel rhan o sicrhau datblygu cynaliadwy; mesurau llym a chredadwy, gan gynnwys ymyrryd, lle nad yw awdurdodau lleol yn darparu nifer y tai sydd eu hangen mewn ardaloedd lle mae galw mawr; ac ystyried a fydd angen system o gynlluniau lleol cyfrwymol, yn y tymor canolig, er mwyn cyflawni amcanion y Llywodraeth. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi comisiynu adolygiad o faterion sy'n effeithio ar ystwythder y cyflenwad yn y DU, yn arbennig i ystyried rôl cystadleuaeth, capasiti ac ariannu'r diwydiant adeiladu tai ac offerynnau cyllidol posibl, a'r berthynas rhwng y rhain a'r system gynllunio ac amcanion datblygu cynaliadwy.

- o ran y galw am dai, drwy adolygiad o farchnad forgais y DU er mwyn canfod pam mae cyfran y morgeisi cyfradd benodedig mor isel yn y DU o gymharu â llawer o wledydd eraill yn yr UE a nodi ffyrdd o annog y farchnad i ddarparu morgeisi cyfradd benodedig tymor hwy; ac

- ar lefel macro-economaidd, o gofio bod tai wedi'u nodi fel ffactor risg sylweddol i gyflawni cydgyfeirio cynaliadwy a hirbarhaol ac, yng nghyd-destun papur trafod y Trysorlys *Fiscal stabilisation and EMU*, ystyried pa ddiwygiadau a mesurau ychwanegol a allai helpu i sicrhau sefydlogrwydd ehangach yn yr economi, gan gynnwys cyfeirio at y farchnad dai, er mwyn creu'r amgylchiadau cywir ar gyfer cydgyfeirio o fewn yr undeb economaidd ac ariannol. Bydd cyhoeddiad y Llywodraeth o'i bwriad i roi targed chwyddiant cymesur i Fanc Lloegr yn yr Adroddiad Rhag-gyllidebol nesaf fel y'i mesurir gan Fynegrif Prisiau Defnyddwyr wedi'i Gysoni yn helpu i sicrhau bod disgwyliadau o ran chwyddiant yn y DU yn aros yn gyson â disgwyliadau o fewn ardal yr ewro.

Cynigion ar gyfer sicrhau mwy o sefydlogrwydd: sefydlogrwydd cyllidol

- Efallai y bydd angen mwy o sefydlogrwydd cyllidol o fewn yr undeb economaidd ac ariannol lle gall y ffaith nad oes polisi ariannol penodol i'r DU beri mwy o gyfnewid macro-economaidd. Mae papur trafod y Trysorlys *Fiscal stabilisation and EMU* yn ystyried nifer o opsiynau polisi er mwyn sicrhau bod polisi cyllidol dewisol yn fwy effeithiol at ddibenion sefydlogi ac yn cryfhau'r ffactorau sefydlogi awtomatig. Mae'r papur yn ystyried y diwygiadau i'r fframwaith sefydliadol y byddai ei angen i fod yn aelod o'r undeb economaidd ac ariannol er mwyn sicrhau bod polisi sefydlogi cyllidol gwell yn gweithredu'n gymesur, ac mewn ffordd gredadwy a thryloyw a pha ddylanwadau polisi sy'n debygol o fod fwyaf effeithiol.

- Ymhlith yr opsiynau polisi credadwy mae rheol gyllidol gymesur newydd i ysgogi'r Llywodraeth i ystyried gweithredu, cyhoeddi Adroddiad ar Sefydlogrwydd er mwyn sicrhau mwy o dryloywder, cynyddu rôl archwilio annibynnol ac offerynnau cyllidol penodol y gellid eu defnyddio at ddibenion sefydlogi. Bydd y Trysorlys yn gwneud dadansoddiad pellach o'r materion hyn er mwyn sicrhau bod y cynigion polisi yn ffordd effeithiol o sefydlogi'r economi rhag cylchoedd petai'r DU yn ymuno â'r undeb economaidd ac ariannol.

Hyblygrwydd y DU: diwygio marchnadoedd

- Hyblygrwydd, y gallu i ymateb i newid economaidd yn effeithlon ac yn gyflym mewn ffordd sy'n cynnal cyflogaeth uchel, chwyddiant isel a diweithdra, a thwf parhaus mewn incwm gwirioneddol, gan sicrhau bod y broses gydgyfeirio yn barhaol. Mae digon o hyblygrwydd yn sicrhau nad yw ysgytiadau yn cael effeithiau yn y cyfnod hir a bod lefelau uchel o allbwn a chyflogaeth yn cael eu cynnal.

- Yn y farchnad lafur, mae'r Llywodraeth yn parhau i weithio i sicrhau mwy o hyblygrwydd ac mae'n gweithredu ymhellach drwy becyn o fesurau sydd â'r nod o sicrhau mwy o hyblygrwydd o ran cyflogau yn y sector cyhoeddus, gwella sgiliau, yn enwedig ar y lefel sylfaenol a chanolradd, rhoi mwy o ddisgresiwn lleol o ran cyflwyno polisïau cyflogaeth a chynyddu'r cyflenwad o lafur drwy helpu mwy o bobl i symud o fudd-dal i waith a sicrhau mwy o fudo economaidd cylchol.

- Yn y farchnad gynnyrch, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi annibyniaeth lawn awdurdodau cystadleuaeth y DU ac mae'n gwneud rhagor i sicrhau mwy o gystadleuaeth mewn marchnadoedd penodol, diwygio'r system gynllunio er mwyn sicrhau ei bod yn gweithio'n fwy effeithlon a chyflwyno pecyn o ddiwygiadau dadreoleiddio i leihau'r baich rheoleiddio ar fusnesau bach.

- Yn y farchnad gyfalaf, bydd y Llywodraeth yn sicrhau mwy o hyblygrwydd drwy ddiwygiadau er mwyn ei gwneud yn haws i fusnesau bach ac iddynt botensial am dwf uchel gael cyllid ac ymgynghori ar ddiwygiadau pellach i'r system treth gorfforaeth.

SEFYDLOGRWYDD YN EWROP – FFRAMWEITHIAU POLISI

Yn Ewrop rhennir ymrwymiad fwyfwy i sefydlogrwydd economaidd ynghyd â diwygiadau economaidd eang eu cwmpas sydd â'r nod o gyflawni cyflogaeth lawn, safonau byw uchel a chydlyniant cymdeithasol. Gan fod mwy na hanner masnach y DU â'r UE a bod cynnyrch, llafur a marchnadoedd cyfalaf yn integreiddio mwy â'i gilydd, y ffordd orau o anelu at fuddiant economaidd y DU yw drwy gydweithredu mwy â gwledydd eraill Ewrop, fel rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i UE cryf a'r undeb economaidd ac ariannol llwyddiannus.

Yn ei adolygiad o'r strategaeth polisi ariannol ym mis Mai 2003, dywedodd Banc Canolog Ewrop eto: *"Diffinnir sefydlogrwydd o ran prisiau fel cynnydd o lai na 2% blwyddyn wrth flwyddyn ym Mynegrif Prisiau Defnyddwyr wedi'i Gysoni ar gyfer ardal yr ewro. Bydd sefydlogrwydd o ran prisiau yn cael ei gynnal dros y tymor canolig".* Nodwyd hefyd yn adroddiad Banc Canolog Ewrop: *"Ar yr un pryd, cytunodd y Cyngor Llywodraethu mai ei nod fydd cynnal cyfraddau chwyddiant yn agos at 2% yn y tymor canolig wrth iddo anelu at sefydlogrwydd o ran prisiau".* Ar hyn o bryd, gan fod lle i ansicrwydd yn amcan chwyddiant Banc Canolog Ewrop, gallai fod risgiau dadchwyddiannol mewn rhai gwledydd, mae'r ffaith bod chwyddiant yn ardal yr ewro wedi bod ar 2 y cant ar gyfartaledd, hyd yma, yn awgrymu nad yw'r risg hon wedi dod i'r golwg yn ymarferol.

Ar lefel yr UE, mae'r Llywodraeth yn cefnogi'r ffordd y mae fframwaith macro-economaidd yr UE yn datblygu. Yn y ddadl sy'n parhau ynglŷn â dehongli'r Cytundeb Sefydlogrwydd a Thwf, bydd y Llywodraeth yn mynd ati i bwysleisio arwyddocâd y cylch economaidd, cynaliadwyedd a dyled isel, a'r rôl bwysig a rydd Cytundeb Maastricht i fuddsoddiad cyhoeddus a goblygiadau'r ymagwedd ddoeth hon i ddehongli beth yw amgylchiadau *'dros*

dro ac eithriadol' mewn perthynas â'r gwerth cyfeirio o 3 y cant, ar gyfer gwledydd sydd â lefelau isel o ddyled.

Mae pob un o wledydd Ewrop wedi dechrau ar raglen uchelgeisiol i ddiwygio'r marchnadoedd llafur, cynnyrch a chyfalaf ac mae'r Llywodraeth yn cefnogi polisïau i sicrhau mwy o gystadleuaeth yn yr UE a'r Farchnad Sengl. Fodd bynnag, mae'n bwysig gwneud mwy o gynnydd ar y lefel Ewropeaidd, yn enwedig o ran hyblygrwydd cyflogaeth, masnach a'r Farchnad Sengl mewn gwasanaethau ariannol. Po leiaf fo'r cynnydd o ran hyblygrwydd yn yr UE, mwyaf gwerthfawr fydd hyblygrwydd lefel uchel yn economi'r DU.

Gallai llawer o'r materion sy'n cael eu hystyried gan y Confensiwn Ewropeaidd arwain at ganlyniadau pellgyrhaeddol o ran perfformiad economïau'r UE yn y dyfodol, p'un a ydynt yn rhan o ardal yr ewro ai peidio. Bydd y Llywodraeth yn parhau i weithio gyda gwledydd eraill Ewrop er mwyn sicrhau'r canlyniadau a fydd yn rhoi mwy o sefydlogrwydd a gwella gallu economïau Ewrop i gynyddu cynhyrchiant a chyflogaeth. Bydd yn gwrthwynebu cynigion a fyddai'n arwain at anhyblygrwydd.

Er mai ECOFIN yw'r corff sy'n gwneud penderfyniadau yn yr UE ym maes polisi economaidd ac ariannol o hyd, pe bai'r DU yn ymuno â'r undeb economaidd ac ariannol, byddai'n aelod o'r Ewrogrŵp ac yn mynychu pob un ac nid rhai o'i gyfarfodydd, a thrwy hynny, gymryd rhan lawn yn y broses gwneud penderfyniadau yn ardal yr ewro.